

Paid ag Ofni

Eseia 43

tôn: Mil Harddach Wyt (tradd)

geiriau: Cass Meurig

F B^b F

O paid ag of - ni, dy - wed Duw; Rwy'n

B^b C C7 F

Pno.

a - ddo, gwnaf dy a - chub di; A gal - waf ar dy en - w'n

Dm F C7 F

Pno.

glir: Fy ei - ddo wyt ti.

Pan fyddi'n mynd drwy'r dyfroedd dwfn
Mi fyddaf yno gyda thi
Wrth groesi'r afon wyllt ei llif
Ni suddi di.

Mor werthfawr yn fy ngolwg wyt
Gwlad gyfan roddwn drosot ti
Fy ngogoneddus, annwyl un
Fe'th garaf di.

Pan fyddi'n mynd drwy fflamau'r tân
Ni chaiff eu gwres dy losgi di
Ni chei dy ddifa f'annwyl un,
Dy Dduw wyf fi.

I bedwar ban y byd yr awn
I'th gasglu yn fy mynwes i
Mae f'enw arnat, fi a'th wnaeth;
Rwyf gyda thi.